WHC (2020) 022

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 14 Rhagfyr 2020

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: CYNLLUNIO**

**Teitl:** FFRAMWAITH CYNLLUNIO BLYNYDDOL GIG CYMRU 2021-22

**Dyddiad dod i ben:** Hydref 2022

**I'w weithredu gan:**
Y Byrddau Iechyd
Ymddiriedolaethau'r GIG
Sefydliadau Cymorth y GIG
Awdurdodau Iechyd Arbennig y GIG

**Angen gweithredu erbyn:**
Cyfnod cynllunio 2021-22

**Anfonwr:** Samia Saeed-Edmonds, Cyfarwyddwr y Rhaglen Gynllunio

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**
**Trish Harper, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cynllunio'r GIG** Patricia.harper@llyw.cymru

**Dogfennau amgaeedig:**

- Llythyr oddi wrth Andrew Goodall
- FFRAMWAITH CYNLLUNIO BLYNYDDOL GIG CYMRU 2021-22

**Mae Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru 2021-22 wedi'i amgáu gyda'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn**

Annwyl gyfeillion,

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, byddai sefydliadau'r GIG yn datblygu eu cynlluniau tymor canolig integredig. Daw'r ddyletswydd statudol i gynhyrchu'r cynlluniau tymor canolig integredig o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, gan ei chryfhau ymhellach gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, i fyrddau iechyd fantoli'r gyllideb dros gyfnod cyfrifo o dair blynedd. Ond nid yw hwn yn gyfnod arferol.

Mae dull y Fframwaith Cynllunio Blynyddol yn ddatblygiad naturiol o'r trefniadau cynllunio chwarterol a gefnogwyd yn 2020-21. Byddai'n her i symud yn ôl i gynlluniau tymor canolig integredig tair blynedd yn syth ar ôl yr hyn a fu, a'r hyn sy'n parhau i fod yn amgylchedd cynllunio newidiol iawn.

Mae'r Fframwaith hwn yn amlinellu'r cyfarwyddydau Gweinidogol ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac yn cadarnhau nad yw'r blaenoriaethau Gweinidogol wedi newid. Mae'n ceisio cyfuno ffocws gweithredol gydag ymwybyddiaeth o'r amcanion tymor hwy a nodwyd yn *Cymru Iachach*, a gofynion deddfwriaethol eraill h.y. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn ogystal, ers dechrau'r pandemig, bu ffocws cryf ar y pedwar niwed sydd wedi bod yn gyd-destun ansawdd allweddol y mae'n rhaid canolbwyntio arnynt i ddarparu gwasanaethau a gofal.

Mae datblygu a chyflwyno Fframwaith Cynllunio Blynyddol ar gyfer 2021-22 yn gam pwysig i gydnabod sut i gael cydbwysedd rhwng ymdopi â'r pwysiau gweithredol uniongyrchol sy'n ein hwynebu a chanolbwyntio ar sefydlogi ac adferiad. Daw'r cyhoeddiad hwn ar adeg dyngedfennol ond y diben yw cynorthwyo i ddechrau cynllunio pan fo'n briodol. Rwy'n disgwyl y bydd eich cynlluniau'n gymesur oherwydd rwy'n gwybod y bydd cydweithwyr yn cefnogi'r ymdrech weithredol aruthrol y gaeaf hwn.

Nid yw mabwysiadu'r dull hwn yn dirymu dyletswyddau statudol y byrddau iechyd i amlinellu eu hamcanion strategol na'u cyfrifoldebau ariannol. **Disgwylir i sefydliadau gyflwyno cynllun blynyddol wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd erbyn 31 Mawrth 2021**.

Er bod angen inni gynllunio, mae angen inni hefyd fod yn barod i fod yn hyblyg gyda chynlluniau wrth i'n hamodau gwaith newid, yn aml yn gyflym iawn. Bydd swyddogion yn parhau i gysylltu â chi a rhoi cymorth ichi, gan gynnwys rhoi canllawiau atodol os yw'r briodol.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall CBE